



3 Medi 2018

Annwyl

ATISN 12533 – Cais am wybodaeth am ddysgu Cymraeg.

Yn dilyn yr e-bost a anfonwyd ar 8 Awst, rwyf nawr yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'ch cais Rhyddid Gwybodaeth ynghylch dysgu Cymraeg.

Roeddech wedi gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Yr holl ohebiaeth sy'n trafod y syniad o roi mwy o bwyslais ar y dafodiaith leol a thafodiaith y rhanbarth wrth ddysgu Cymraeg fel rhan fwy amlwg o'r cwricwlwm newydd.
2. Nodiadau yr holl gyfarfodydd sy'n trafod yr elfen o ddysgu mwy am y dafodiaith leol a thafodiaith y rhanbarth wrth ddysgu Cymraeg.
3. Yr holl dystiolaeth sy'n dangos unrhyw drafodaeth am yr elfen o roi mwy o bwyslais ar y dafodiaith leol a thafodiaith y rhanbarth o fewn y Cymhwyster TGAU Cymraeg newydd.
4. Yr holl ddogfennau sy'n dangos beth yw'r gofynion presennol yn y cwricwlwm cenedlaethol sy'n ymwneud a dysgu tafodieithoedd Cymraeg yn gyffredinol wrth ddysgu Cymraeg.

Dyma'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw mewn perthynas â'r cwestiynau hynny:

1. Yr unig ohebiaeth sydd gennym yw gohebiaeth gyda chi ar y mater. Mae'r wybodaeth hwnnw yn eithriad o dan s21(1) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan bod hyn yn wybodaeth sydd yn weddol gyraeddadwy i chi heb gyrchu i gais Rhyddid Gwybodaeth.
2. Nid ydym yn dal gwybodaeth o'r disgrifiad hwn.
3. Nid ydym yn dal gwybodaeth o'r disgrifiad hwn.
4. Mae'r Rhaglen Astudio cyfredol ar gyfer CA2, CA3 a CA4 yn cynnwys elfen o dafodiaith fel rhan o ystod o brofiadau y dylai dysgwyr eu profi:

*gwyllo a chlywed gwahanol bobl yn siarad gan gynnwys pobl â **thafodiaith** wahanol a siaradwyr profiadol, ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir*

Gellir gweld y Rhaglenni Astudio cyfredol yma:

Cymraeg iaith gyntaf:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-welsh-cy-ve3.pdf>

Cymraeg ail iaith:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150707-welsh-second-language-cy-v2.pdf>

Fframwaith Llythrennedd:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nInf/?lang=en>

Cyfnod Sylfaen:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gwyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir